Seashells Ltd

DATGANIAD O DDIBEN

GWASANAETHAU GOFAL CARTREF A CHYMORTH

Rhanbarth: Gogledd Cymru

Dyddiad: 3rd Awst 2022

CYNNWYS

Adran 1: Cyflwyniad

- Fframwaith cyfreithiol ein Datganiad o Ddiben
- Ynghylch ein sefydliad

Adran 2: Lleoliad y gwasanaeth

Adran 3: Ynghylch y gwasanaeth a ddarparwn

- Amrediad yr anghenion y gallwn eu cefnogi

Adran 4: Sut rydym yn darparu ein gwasanaeth

- Trefniadau asesu, cynllunio ac adolygu gofal pobl
- Safon y gofal a'r cymorth
- Iaith ac anghenion chyfathrebu ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth

Adran 5: Trefniadau Staffio

- Lefelau staffio
- Staff arbenigol
- Trefniadau goruchwyliaeth
- Hyfforddi staff

Adran 6: Cyfleusterau a gwasanaethau

- Gwarchod data a chyfrinachedd
- Cyfarfod â defnyddwyr y gwasanaeth
- Cyfarfod â staff

Adran 7: Llywodraethu a threfniadau monitro ansawdd

- Sut bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cadw golwg ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth
- Mesurau sicrhau ansawdd i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth
- Trefniadau ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth, staff a rhanddeiliaid eraill
- Mesurau rheoli heintiau/Covid19

Datganiad o Ddiben

Gwasanaethau Gofal a Chymorth Seashells

Prif Swyddfa:

21 Ffordd Wynnstay
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8NB

Ffôn: 01492 543524
Ffacs: 0800 471 5175
E-bost: info@seashellsltd.co.uk
Gwefan: www.seashellsltd.co.uk

Swyddfa Dolgellau:

2 Tŷ Maldwyn
Sgwâr Finsbury
Dolgellau
Gwynedd
LL40 1RF

Ffôn: 01341 429198
Ffacs: 0800 471 5175
E-bost: info@seashellsltd.co.uk
Gwefan: www.seashellsltd.co.uk

Crëwyd y Datganiad o Ddiben hwn yn unol â deddfwriaethau, rheoliadau a chanllawiau statudol. Mae'n offeryn gwybodaeth ar gyfer cyflwyno ein gweledigaeth o ran ein gwasanaeth a'n dyheadau i ddiwallu anghenion y bobl y gofalwn amdanynt. Datblygwyd ein Datganiad o Ddiben i gydymffurfio â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru (2016). Darperir copi o'r Datganiad o Ddiben hwn i'n corff rheoleiddio AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru). Rydym yn ei adolygu pan wneir newidiadau i'n gwasanaeth, neu o leiaf yn flynyddol. Darperir copi o'n Datganiad o Ddiben i bob unigolyn sy'n defnyddio ein gwasanaethau gofal a chymorth ac mae ar gael ar gais i bobl eraill.

Adran 1: Cyflwyniad

Cwmni preifat yw Gwasanaethau Gofal a Chymorth Seashells (Seashells Cyf). Rydym wedi'n cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gwasanaeth gofal cartref a chymorth. Bu'r cwmni'n gweithredu fel darparwr gofal cartref cofrestredig ers 2007 a bu'n darparu prosiectau Tai â Chymorth ers 2003.

Ein Hunigolyn Cyfrifol yw Stuart Owen (Cyfarwyddwr), a fydd yn cadw golwg ac yn archwilio'r gwasanaeth. Ein Rheolwr Gweithrediadau yw Paula Whitehouse, a fydd yn rheoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mark Jones yw Cyfarwyddwr ein cwmni.

Mae Seashells Cyf yn arbenigo mewn darparu gwasanaethau gofal a chymorth pwrpasol ar gyfer pobl hŷn dros 65 oed a all fod ganddynt anghenion cymorth cymhleth a lluosog, oherwydd henaint neu oherwydd y cawsant ddiagnosis o ddementia. Rydym hefyd yn rhoi cymorth i oedolion dros 18 oed a chanddynt anabledd dysgu, neu anabledd corfforol.

Nod Seashells Cyf yw darparu gwasanaethau gofal personol a chymorth i ddiwallu anghenion pobl yn eu hamgylchedd eu hunain. Cyflawnir hyn drwy hyrwyddo safonau rhagoriaeth, sy'n coleddu egwyddorion sylfaenol ymarfer gofal da ac yn hybu annibyniaeth a dewis.

Adran 2
Lleoliad y Gwasanaeth

Mae Seashells Cyf yn gweithio ar ran yr awdurdodau lleol ac yn darparu gwasanaeth ar sail breifat. Gallwn ddarparu gofal ledled Gogledd Cymru; fodd bynnag, ar hyn o bryd rydym yn lleoli ein gwasanaethau yn siroedd Conwy, Dinbych a Gwynedd gyda Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gogledd Cymru.

Gan ein bod yn gwmni preifat, rydym yn codi tâl am ein gwasanaethau. Fodd bynnag, yn aml iawn bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn talu cost y gofal, er gallant ail-godi cost ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth; mae hyn yn dibynnu ar reolau cyllido eich awdurdod lleol.

Mae ein prif swyddfa ym Mae Colwyn. Mae gennym swyddfa hefyd yn Nolgellau ac mae ein swyddfa gofrestredig yn 102 Llys Bowen, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy. LL17 0JE.

Adran 3
Y gwasanaethau a ddarparwn

Mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn hyblyg a chaiff ei asesu ar anghenion yr unigolyn. Rydym yn darparu gofal personol a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Gellir diffinio cartref fel man y mae'r unigolyn yn byw gyda'i deulu neu ar ei ben ei hun. Gall y gwasanaeth helpu i roi cymorth i unigolyn ddefnyddio amrywiaeth o gyfleusterau yn y gymuned, i ddilyn diddordebau/hobïau penodol, boed yn addysgol, yn gymdeithasol neu'n hamdden. Gallai hyn fod yn gychwyn cwrs coleg am y tro cyntaf neu roi cymorth i unigolyn fynd i ddigwyddiad cymdeithasol. Bydd cytundeb rhwng y cleient â'u rheolwr gofal yn diffinio'r math o gymorth

y byddwn yn ei ddarparu, gyda golwg ar sicrhau canlyniadau/llwyddiannau cadarnhaol, yn ôl dymuniad yr unigolyn sy'n defnyddio'n gwasanaethau. Mae cynlluniau gofal yn drefniant hyblyg a gellir eu newid pryd bynnag y bydd y person sy'n defnyddio ein gwasanaethau ei angen.

Er enghraifft:

- Rhoi cymorth i bobl a chanddynt anableddau dysgu, anableddau corfforol, pobl yn eu henaint a phobl hŷn â dementia yn eu cartrefi eu hunain.
- Gofal personal fel helpu i wisgo, ymolchi, cael bath a glendid
- Rhoi cymorth i unigolyn a chanddo anghenion iechyd corfforol gyda meddyginiaeth, mynd i'r tŷ bach, hebrwng i apwyntiadau.
- Rhoi cymorth ymarferol fel helpu/paratoi a choginio prydau bwyd, glanhau, gwneud y golch a siopa.
- Rhoi cymorth gyda thasgau cymdeithasol fel ysgrifennu llythyrau, darllen, siarad gyda theulu a ffrindiau, dilyn hobi neu weithgaredd o'u dewis.
- Meithrin sgiliau a hyrwyddo annibyniaeth yn unrhyw un neu'r cwbl o'r meysydd uchod.

Efallai y bydd rhoi cymorth i bobl a chanddynt anabledd dysgu, anabledd corfforol sydd angen cymorth i ddefnyddio cyfleusterau yn y gymuned a/neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden neu gymdeithasol yn cynnwys:

- Cyrchu cyfleusterau addysgol fel cyrsiau coleg
- Defnyddio cyfleusterau hamdden i ddilyn gweithgareddau fel chwaraeon, mynd i'r sinema, y theatr, y llyfrgell, cyrsiau celf, cerddoriaeth a gweithgareddau
- Cadw arfer crefyddol a dilyn gweithgareddau diwylliannol
- Cynnal a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol
- Meithrin sgiliau a hyrwyddo annibyniaeth yn y meysydd uchod.

Ar hyn o bryd, rydym yn darparu tua 2000 awr o ofal a chymorth yn siroedd Conwy, Dinbych a Gwynedd.

<u>Adran 4</u>
<u>Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu</u>

Rydym yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â'r unigolyn, pobl broffesiynol eraill a theulu/cynrychiolwyr a chanddynt ran yng ngofal defnyddwyr ein gwasanaethau, i hybu a chynnal eu hannibyniaeth a'u lles. Mae Seashells yn defnyddio patrwm gofal Vanguard ar weithio mewn partneriaeth effeithiol gyda phobl broffesiynol eraill. Mae'n rhoi'r gallu i unigolion sy'n defnyddio'n gwasanaethau gynllunio eu pecyn gofal eu hunain, yn seiliedig ar eu dewisiadau a'u gwerthoedd eu hunain.

Cyn y byddwn yn ymrwymo i gytundeb i ddarparu cymorth, sicrhawn y gwnaethpwyd asesiad trylwyr o anghenion darpar unigolyn. Yn achos pobl a gyfeiriwyd at Seashells Cyf gan adran o wasanaethau cymdeithasol, bydd yr asesiad hwn wedi'i gwblhau yn rhan o'r broses rheoli gofal. Byddwn wedi cael crynodeb o leiaf, ond bydd Rheolwr hyfforddedig o Seashells Cyf yn

gwneud asesiad llawn, manwl i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir, yn berthnasol ac yn gyfredol. Yn achos pobl sy'n troi at yr asiantaeth yn uniongyrchol, rydym yn gyfrifol am gyflawni asesiad llawn o'u hanghenion gofal, yn unol â'n gweithdrefnau asesu anghenion gofal.

O'r atgyfeiriad cychwynnol, byddwn yn cysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth i drefnu amser cyfleus i gyfarfod ac asesu'r hyn maen nhw'n gobeithio ei gyflawni wrth ddefnyddio ein gwasanaethau a sut yr hoffent weld y gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddarparu. Yr unigolyn fydd yn cyfarwyddo'n hasesiad trylwyr, gan gywain gwybodaeth a phennu nodau ac amcanion. Unwaith y cytunir arno, bydd cynllun gofal a chymorth wedi'i bersonoli'n cael ei greu gan Reolwr Gofal profiadol, penodol a gaiff ei ddyrannu i bawb sy'n defnyddio'n gwasanaeth. Caiff cynlluniau gofal a chymorth eu hadolygu yn y 4 wythnos gyntaf o ddechrau'r pecyn cymorth, a bob 12 wythnos wedi hynny, oni bai y bydd yr unigolyn neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n helpu gyda'u gofal yn rhoi cyfarwyddyd fel arall. Bydd hyn yn sicrhau bod y pecyn gofal yn hyblyg, ac yn newid yn ôl anghenion a dyheadau'r unigolyn.

Bydd unrhyw gynllun gofal a chymorth yn debygol o olygu ychydig o risgiau i'r unigolyn. Nid yw hyn yn golygu na ddylid gweithredu, gan fod risgiau rhesymol a chyfrifol yn gynhenid i ansawdd bywyd. Yn achos sefyllfa a all beri risg a ganfyddir wrth lunio'r cynllun, bydd asesiad risg ffurfiol yn cael ei wneud. Bydd hyn yn rhestru ac yn pwyso a mesur y manteision cadarnhaol yn erbyn effeithiau niweidiol posibl y cam gweithredu arfaethedig, y rhagofalon y dylid eu cymryd, a'r trefniadau ar gyfer ailystyried y mater, pan fydd yn briodol. Cofnodir y ffactorau hyn, a chasgliad penodol yr asesiad risg yn y cynllun gofal a chymorth.

Mae ein staff wedi'u hyfforddi i weithio gydag unigolion a chanddynt anghenion cymorth amrywiol, gan gynnwys pobl a chanddynt anabledd dysgu, anabledd corfforol, yr henoed a'r rheini â diagnosis o ddementia. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cael gweithlu hyblyg, medrus. Cyflwynwn raglenni hyfforddi newydd ar gyfer staff a fydd yn gwella ein darpariaethau gwasanaeth ac yn ein galluogi i gyplysu staff medrus priodol i'r unigolyn. Bydd hyn yn sicrhau diwallu eu hanghenion. Rydym hefyd yn medru rhoi cymorth dros nos ac i rai sy'n chwilio am wasanaethau gofal ysbaid. Mae gan Seashells Cyf dîm rheoli ymrwymedig, proffesiynol a hyblyg ac mae gan bawb brofiad perthnasol a chymwysterau ar gyfer eu rolau.

Mae gennym ddau hyfforddwr mewnol sydd wedi'u hachredu mewn meysydd arbenigol fel codi a chario. Mae ein hyfforddwyr yn gweithio'n barhaus tuag at ddatblygu ein matrics hyfforddi i gyd-fynd â'r newid yn anghenion y bobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau. Maent yn sicrhau bod ein staff wedi'u hyfforddi er mwyn rhoi gofal a chymorth effeithiol a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r unigolyn. Mae Seashells wedi buddsoddi mewn hyfforddiant e-ddysgu ar-lein fel datrysiad i'r anawsterau a gawsom wrth barhau â datblygiad proffesiynol yn ystod y pandemig.

<u>Gwerthoedd Craidd Gofal</u>

- Gweithio mewn dull gonest, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fydd yn rhoi sail i ofal cymdeithasol a chymorth sy'n hyrwyddo ei hawliau ac yn hybu ei ddiddordebau.
- Sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a meithrin hyder rhwng unigolion a gofalwyr.

- Parchu gwerth cynhenid, urddas, unigoliaeth, hunaniaeth ethnig a threftadaeth ddiwylliannol yr unigolyn.
- Cymryd rhan mewn cymdeithas, a datblygu cynlluniau, polisïau a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd yr unigolyn, gan roi llais a rheolaeth i bobl.
- Atebolrwydd dros eich rolau a'ch cyfrifoldebau eich hun, datblygu a meithrin sgiliau a chywain gwybodaeth, sy'n briodol i'ch rôl eich hun yn Seashells.
- Cyflawni dyheadau a galluoedd personol ym mhob agwedd ar gelwydd dyddiol, gan gynnwys y cyfle i ddatblygu sgiliau ne a gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Sicrhau bod gweithlu Seashells yn fedrus, yn ystyriol, lle cefnogir diwylliant sefydliadol o ddysgu brwdfrydig a datblygu.
- Cydraddoldeb cyfleoedd a chael gafael ar wasanaethau, beth bynnag fo oedran, hil, tarddiad ethnig, credo, lliw, crefydd, cysylltiad gwleidyddol, anabledd neu nam, statws priodasol, bod yn rhiant, rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol yr unigolyn.
- Cymorth wedi'i bersonoli: Canolbwyntio ar ganlyniadau gan ddefnyddio cynllun gofal a chymorth wedi'i bersonoli er mwyn cyflawni amcanion a ddewiswyd.
- Sicrhau fod pob cam gweithredu'n hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Rhoi cymorth i bobl fanteisio i'r eithaf ar eu penderfyniadau, a'u galluogi i gael rheolaeth dros eu bywydau.
- Cyd-gynhyrchu, gweithio gyda gofalwyr a phobl broffesiynol eraill, gan ddefnyddio systemau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, i rannu gwybodaeth yn briodol.
- Cymryd rhan weithredol, a chydnabod bod pob unigolyn yn bartner gweithredol yn ei ofal ei hun.

Bydd gwireddu'r gwerthoedd hyn, a chael y cymorth a'r gefnogaeth angenrheidiol i gyflawni amcanion personol, yn unigryw i bob unigolyn. Fodd bynnag, mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion yn parhau'n gyson a byddant yn sail gadarn i ddarparu gofal i bawb, beth bynnag fo'u hamgylchiadau personol.

<u>Iaith ac Anghenion Cyfathrebu i ddefnyddwyr y Gwasanaeth</u>

Nod Seashells Cyf yw darparu gwasanaeth gwell i siaradwyr Cymraeg drwy gefnogi natur ddwyieithog Cymru, gan ddenu staff sy'n medru siarad Cymraeg. Gwneir hyn drwy gydnabod ei pherthnasedd a'i phwysigrwydd i ddefnyddwyr y gwasanaethau, a'u teuluoedd, er mwyn iddynt allu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Bydd Seashells yn anelu at ddarparu gwasanaethau yn newis iaith yr unigolyn. Bydd yn anelu at ddarparu gwybodaeth a llenyddiaeth i'r cyhoedd mewn fformat ddwyieithog. Bydd Rheolwyr sy'n gweithio yn y swyddfa yn ateb pob ymholiad dros y ffôn yn ddwyieithog, er mwyn sicrhau y gallant gynnal sgwrs gyda'r sawl sy'n galw yn ei ddewis iaith. Rydym hefyd yn gwneud 'Cynnig Gweithredol' drwy ofyn i unigolion beth yw eu hiaith gyntaf a chofnodi hynny, ond nas cofnodwyd eisoes. Mae hyn yn sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'u dewis iaith, yn ddiofyn.

Mae Seashells Cyf yn gyflogwr cyfle cyfartal a'i nod yw ceisio recriwtio siaradwyr Cymraeg, fel sy'n briodol. Mae Seashells Cyf wedi ymrwymo i annog staff i ddatblygu sgiliau Cymraeg, a phan fo'n briodol, bydd yn chwilio a chael hyd i gyrsiau hyfforddi o'r fath i'w staff.

Mae Seashells yn cydnabod yr pwysig efo cyfle cyfartal yn yr gweithlu wrth seiniu ac cwbwlaui dogfennau gan y llywodraeth anabledd cynllun hyderus. Mae ymrwymiad yn sicrhau thiwyn syn anabel neu ef problemall lechyd hir. Yn gallu cyflawni potensial yw sylweddoli ei dyheadau.

Adran 5
Trefniadau Staffio

Cyfarwyddwr — **Unigolyn Cyfrifol (Cyfarwyddwr)**

Mark Jones — Stuart Owen

Rheolwraig Gweithredu

Paula Whitehouse

Rheolwr Gwasanaeth — **Dirprwy Rheolwraig**

Barry Williams — Bethan Waller-Williams

Gofal Rheolwraig 2 — **1 Uwch Gofal Rheolwraig**

Rheolwraig Gofal yn y Gymuned 1 — **Arweinydd Tîm 1**

Arolygwyr 10

Gofalwyr yn y Gymuned 74

Unigolyn Cyfrifol

Stuart Owen:

Cymwysterau
Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol (2001)
Diploma mewn Astudiaethau Lles (1998)

Profiad
Mae Stuart wedi bod yn Ddarparwr Cefnogi Pobl achrededig yn Sir Ddinbych ers 2003 ac wedi sefydlu'r cwmni Seashells Cyfyngedig (Gwasanaethau Cymorth Seashells) gyda'i gyd-gyfarwyddwr Mark Jones. Stuart sydd wedi bod yn rheoli'r prosiect hwn dros y tair blynedd ar ddeg diwethaf. Mae'r prosiect yn Sir Ddinbych yn cynnig cymorth a llety i bump o wrywod sy'n agored i niwed ac sydd ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl, y gallent fod yn ddigartref, fel arall. Yn 2001, cymhwysodd Stuart fel Gweithiwr Cymdeithasol (DipSW). Yn ystod 2002-2003, bu'n gweithio fel Gweithiwr Cymdeithasol i Gyngor Sir Ddinbych. Yn 2005 daeth Stuart a Mark yn Landlordiaid Cymeradwy yn Sir Conwy ac maent yn rhoi cymorth i chwe oedolyn sydd ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol yn eu dau safle. Mae gan Stuart a Mark brofiad cynhwysfawr ym maes gofal cymdeithasol.

Rheolwraig Gweithredu

Paula Whitehouse:

Cymwysterau
NVQ mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2
Fframwaith Cymwysterau a Chredydau, Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Rheoli Oedolion
Polisi Cyhoeddus a Chymdeithasol BA Anrhydedd 2:1 Prifysgol Glyndŵr

Profiad
Cyn ymuno â thîm Seashells Cyf yn 2016 fel Rheolwr Cofrestredig, mae Paula wedi gweithio ym maes gofal ers 2008. Bu'n gweithio mewn cartrefi preswyl a chafodd brofiad blaenorol yn gweithio mewn lleoliad gofal cartref. Bu'n rheoli gwasanaethau gofal dydd cyn hynny ac arweiniodd ar greu gwasanaeth gofal cartref newydd sydd wedi'i galluogi i reoli sefyllfaoedd anodd a sensitif. Mae hi wedi rhoi cymorth a chanllawiau effeithiol i staff ac wedi'i chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Ers hynny, mae Paula wedi cael dyrchafiad i fod yn Rheolwr Gweithrediadau i oruchwylio'r gwasanaethau ac arwain a chefnogi'r tîm

Dirprwy Rheolwraig

Bethan Waller-Williams:

Cymwysterau
NVQ mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a 3
Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Iechyd

Profiad
Mae gan Bethan bron 15 mlynedd o brofiad yn y sector gofal. Gan ddechrau ei gyrfa mewn catref preswyl, aeth Bethan ymlaen yn y sector gofal cymeithasol, gan gwblhau ei chymwysterau, enill lefel 2,3 ac 5 mewn Iechyd a Gofal. Ers hynny, mae Bethan wedi bod yn gweithio gyda Seashells Ltd ers 2016 fel Rheolwraig Gofal, gan symud ymlaen i Derpwyr reolwraig yn diweddar ym mis Gorfffennaf 2019.

Cymwysterau staff eraill

- Rheolwr Gwasanaeth: Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a 3, Gwobr Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant, Gwobr Lefel 3 Hyfforddwr Diogelu rhag Amddifadu Rhyddid, Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Diploma Lefel 5
- Uwch Gofal Rheolwraig: Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a 3, Gwobr Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant, Gwobr Lefel 3 Hyfforddwr Diogelu rhag Amddifadu Rhyddid, Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Diploma Lefel 5
- Rheolwyr Gofal: Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol x 3, yn gweithio tuag at Lefel 5 x 1 Rheolwr.
- Rheolwr Gofal yn y Gymuned: Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3
- Arweinydd Tîm: Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 and 1 x Lefel 5.
- Goruchwylwyr: Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 x 8 goruchwyliwr. Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Rheoli Oedolion x 1 goruchwyliwr. Gweithio tuag at y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 x 2 arolygwyr, , yn gweithio tuag at Lefel 5 x 2 Rheolwr.
- Gofalwyr yn y Gymuned: Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2. Disgwylir cyflawni isafswm o lefel 2 cyn pen 2 flynedd ar ôl dechrau gyda ni. bydd yr holl staff newydd yn cwblhau'r AWIF ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- bydd yn ofynnol i'r holl staff fod wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru cyn pen 6 mis ar ôl dechrau gyda ni. rydym yn cefnogi staf i gwblhau eu cofrestriad.

Ar rota wythnosol nodweddiadol, mae 33 o staff yn cwblhau galwadau gofal yn y boreau ar gyfer yr unigolion sy'n defnyddio'n gwasanaethau gofal a chymorth, a 27 yn ystod y shifftiau nos. Mae gennym tua 82 o staff gofal cymdeithasol yn gweithio yn y gymuned ar hyn o bryd.

Nod Seashells yw rhoi hawl i'r holl staff fynd i gyfarfodydd, goruchwyliadau ac arfarniadau rheolaidd drwy gydol eu cyflogaeth, bob 8-12 wythnos. Maent yn rhan hanfodol o gyflogaeth lle mae modd gwerthuso perfformiad staff, eu monitro a dynodi eu hanghenion hyfforddi. Maent hefyd yn fodd o ddarparu cyswllt rheolaidd â staff lle gallant deimlo'n gyfforddus yn trafod materion os teimlant eu bod unai'n rhwystro eu gwaith o ddydd i ddydd, neu a all fod o fudd iddo. Bwriad cynnal goruchwyliadau ac arfarniadau yw sefydlu trefn gadarnhaol, llawn cymhelliant sy'n cefnogi staff a'u helpu i wella. Maent hefyd yn gyfle i gyfnewid syniadau a chyflwyno cysyniadau newydd fyddai'n gwella arferion gweithio. Mae rheolwyr Seashells Cyf yn hyrwyddo polisi drws agored gyda staff, lle bydd Rheolwr ar gael i siarad yn y swyddfa. Y nod yw dod i adnabod staff yn bersonol ac i roi cymorth ymarferol ac emosiynol iddynt yn eu rôl. Mae hyn yn lleihau straen allanol ac yn gwneud i staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn gwella cyfraddau cadw staff, a gwella safon y gwasanaeth.

Hyfforddiant

Mae Seashells Cyf o'r farn fod gan bob unigolyn sy'n defnyddio ein gwasanaethau cymorth yr hawl i reoli a gweinyddu ei feddyginiaeth ei hun, pe dymuna wneud hynny. Bydd yn rhoi cymorth a chyfarpar i alluogi pobl i hunanfeddyginiaethu'n ddiogel, lle bo hynny'n bosibl. Bydd staff gofal Seashells Cyf sydd wedi'u hyfforddi ond yn darparu cymorth Lefel 1 gyda meddyginiaeth, oni bai y comisiynwyd fel arall gan Iechyd - mae pobl broffesiynol ym maes iechyd wedi asesu ein staff o ran eu bod yn gymwys i wneud hynny. Lefel 1 yw cefnogaeth gyffredinol, (annog a helpu). Atgoffa neu gymell unigolion i gymryd eu meddyginiaeth eu hunain, eu helpu i gymryd y feddyginiaeth o'r cynhwysydd a'i roi ar lestr addas. Agor potel o hylif neu dynnu tabledi o becyn swigod, ar gais yr unigolyn. Gofyn am bresgripsiynau amlroddadwy gan y meddyg teulu. Casglu meddyginiaethau o fferyllfeydd yn y gymuned a gwaredu meddyginiaeth nas defnyddiwyd, yn ddiogel.

Mae hyfforddiant yn ymdrin ag anghenion iechyd neu gymorth yn y cynllun gofal, e.e. gofynion meddyginiaeth; fodd bynnag, mae gweithiwyr gofal wedi cael eu hyfforddi ar agwedd fwy personol o gyflenwi gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys briffio staff ar y wybodaeth a gasglwyd drwy sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig i mi'. Bydd Rheolwyr Gofal yn rhoi gwybod i staff am fanylion tebyg i, o dan ba enw yr adwaenir y cleient wrtho, sut mae'n hoffi ei de, pa weithgareddau mae e'n hoffi cymryd rhan ynddynt, neu'r rheolau tŷ sydd ganddo. Mae hyn yn ategu hyfforddiant safonedig ar god ymddygiad, fel bod yn gwrtais, yn gymwynasgar, yn barchus o eiddo pobl, a gofyn am ganiatâd cyn cyflawni tasgau. Bydd gweithwyr gofal yn meithrin perthnasau cefnogol wrth barchu'r unigolyn, ac wrth roi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Bydd holl staff Seashells yn cwblhau cwrs cynefino wythnos o hyd gydag un o'n dau hwylusydd sy'n 'hyfforddi'r hyfforddwyr' ardystiedig. Byddant yn ymdrin â chyflawni agweddau pwysig o'u rolau:

- Cyflwyniad i'r sefydliadmuyn
- Deddfwriaethau allweddol Gofal Cymdeithasol
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Gofal sy'n canoli ar ofal a lles
- Iechyd a Diogelwch
- Golchi dwylo a glendid
- Gofal Catheter
- Diogelwch tân
- Ymwybyddiaeth Dementia (Achrededig)
- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Diogelu oedolion sy'n agored i niwed
- Meddyginiaeth
- Ymwybyddiaeth o Gymorth Cyntaf
- Uniondeb Croen
- Sglerosis Ymledol
- Ymwybyddiaeth Strôc
- Symud, codi a chario (Achrededig)
- Polisïau a gweithdrefnau
- Diogelu rhag Amddifadu Rhyddid (Achrededig)

Yn ogystal â'r pynciau hyn, mae rheolwyr wedi eu hyfforddi mewn Diogelu Lefel 3, cydraddoldeb ac amrywiaeth, risg, ac asesu anghenion. Fe'i hanogir i fynd i fforymau darparwyr a digwyddiadau eraill sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol. Mae pob Rheolwr wedi cwblhau eu Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu yn gweithio tuag ato. Yn ystod goruchwyliadau, gofynnir i reolwyr barhau â'u datblygiad proffesiynol drwy ganfod hyfforddiant yn eu maes o ddiddordeb eu hunain ac sy'n berthnasol i'w rolau. Bydd Seashells yn cyllido a chefnogi hyn. Mae hyn yn ychwanegol i hyfforddiant gorfodol *ad-hoc* i Reolwyr.

Caiff hyfforddiant ei asesu drwy brofion ymarferol a theori ar ôl pob adran. Pan fydd hyfforddiant cynefino wedi'i asesu a bod staff wedi pasio'n llwyddiannus, bydd gofyn iddynt weithio gydag arolygwr yn y gymuned am wythnos o gysgodi. Yn ystod yr amser hwn, caiff eu cymhwysedd o ran technegau codi a symud a chario, cynorthwyo gyda meddyginiaeth a glendid, datblygu perthnasau gyda'r dinesydd a chymhwysedd, eu hasesu. Mae gofyn i staff gofal cyfredol ddiweddaru eu hyfforddiant codi a symud a chario a meddyginiaeth, yn flynyddol. Nod y rheolwr yw dynodi gofynion hyfforddi parhaus ar gyfer anghenion unigolion a'r tîm drwy gynnal goruchwyliadau, cyfarfodydd tîm, adolygiadau gydag unigolion, gan ddefnyddio ein gwasanaethau cymorth a thrwy gyfrwng ein tîm rheoli/goruchwylio yn monitro perfformiad.

Adran 6
Adnoddau a Gwasanaethau

Mae preifatrwydd staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn bwysig iawn. Mae Seashells Cyf yn gweithredu yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Fel rheolwr data, mae Seashells yn ymrwymedig i brosesu gwybodaeth yn deg, yn gyfreithlon ac mewn modd tryloyw. Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth gyda chysyniad gwybodus yr unigolyn, os yw datgelu'r wybodaeth er budd y cyhoedd, neu lle bo dyletswydd gyfreithiol i wneud hynny. Bydd gofyn i'r holl staff ddarllen y polisïau ar warchod data a chyfrinachedd, fel rhan o'u trefn gynefino. Bydd pob rheolwr wedi cwblhau hyfforddiant ar GDPR.

Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi i gofio bod ganddynt ddyletswydd cyfrinachedd:

- I drin yr holl wybodaeth bersonol gyda pharch, ac er budd gorau'r client y mae'r wybodaeth yn perthyn iddo
- Rhannu gwybodaeth a roddwyd iddynt yn gyfrinachol gyda'u Rheolwr, pan fo'n briodol
- Rhannu gwybodaeth gyfrinachol gyda chyfeillion sy'n rhannu'r ddarpariaeth gofal, pan fo'n briodol
- Trosglwyddo a derbyn gwybodaeth gyfrinachol yn ôl a blaen rhwng cyfeillion, ar adegau pan fo rhaid cael rhywun arall yn eu lle, oherwydd salwch, gwyliau neu resymau eraill, mewn modd cyfrifol a pharchus
- Dim ond trosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol i asiantaethau cymdeithasol a gofal iechyd eraill, gyda chytundeb y cleient, a chaniatâd eu rheolwr, neu mewn achosion brys, os yw er lles y cleient, neu ei angen ar frys i ddiogelu'r cleient neu unigolyn arall.
- Cyfeirio at wybodaeth gyfrinachol mewn sesiynau hyfforddi neu oruchwyliadau grŵp, gyda pharch a gofal, a gorau oll mewn ffyrdd na fyddai'n datgelu pwy yw'r cleient y mae'r wybodaeth yn perthyn iddi
- Sicrhau y cedwir cofnodion cleientiaid mewn cwpwrdd dan glo mewn swyddfa wedi'i chloi, er mwyn sicrhau y cedwir cofnodion yn ddiogel ac yn gyfrinachol, bob amser
- Trefnu mai ond bobl briodol yn unig fydd yn gallu cyrchu gwybodaeth ar gyfrifiaduron a'i gadw'n ddiogel

Adran 7
Trefniadau Llywodraethu a Monitro Ansawdd

Yr Unigolyn Cyfrifol yn cadw golwg ar y gwasanaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol (y Cyfarwyddwr), yn ymweld â'r Brif Swyddfa o leiaf bob wythnos pan fo hynny'n bosibl, i adolygu'r gwasanaeth gyda'r Rheolwr Gweithrediadau ac yn ymweld â'n swyddfa yn Nolgellau bob 12 wythnos i gyfarfod â'r Rheolwr Gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol (y Cyfarwyddwr) yn cynnal cyfarfodydd gyda'r Rheolwyr bob 12 wythnos gyda'r ddwy gangen. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol (y Cyfarwyddwr) a'r Rheolwr yn cynnal ymweliadau cartref â'n cleientiaid bob 12 wythnos, er sicrhau bod ein darpariaeth gofal yn ateb gofynion ein cleientiaid. Rydym yn cadw cofnod o bob ymweliad â swyddfeydd a chleientiaid. Yr Unigolyn Cyfrifol (y Cyfarwyddwr) fydd yn dewis y cleientiaid yn seiliedig ar leoliad y gwasanaethau ac amrywiaeth yr anghenion a ddarperir. Bydd ymweliadau â'n cleientiaid yn golygu y cânt eu

hysbysu'n llawn am eu hopsiynau a gyda phwy y dylent gysylltu, pe cyfyd pryderon ynglŷn â'u gofal presennol. Mae ffeiliau arolygiadau o'r cartref yn rhan o'r adolygiad er sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn ddiogel ac effeithiol. Ar ôl cynnal arolygiadau, rhoddir adborth i'r Rheolwr Gweithrediadau a'r Rheolwr Gwasanaethau a dynodir unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol a all fod eu hangen. Gwneir ail-ymweliad bob wythnos, nes y cwblheir hyn. Adolygir y gwaith o fonitro ansawdd y gofal a'r cymorth bob chwe mis a chaiff hynny ei fonitro gan Unigolyn Cyfrifol a'i ddirprwyo i'r Rheolwr Ansawdd a Sicrwydd. Ar ôl cynnal adolygiadau, rhoddir adborth i'r Rheolwr Gweithredol a'r Rheolwr Gwasanaeth am unrhyw gamau a allai fod yn ofynnol ac ailedrychir arno'n wythnosol nes ei gwblhau. Mae monitro ansawdd gofal a chymorth yn cael ei adolygu bob chwe mis, ac mae hyn yn cael ei fonitro gan yr Unigolyn Cyfrifol a chytunir ar gamau gweithredu gyda'r rheolwr gofal a ddynodwyd i'r ardal honno. Mae'r RI yn cwblhau adroddiad ar ôl gwiriadau chwarterol i gydymffurfio ag adran 73 o ddeddfwriaeth RISCA.

Mesurau rheoli heintiau/Covid19

Fel cwmni llwyddianus, yr ydym yn gwneud siwr fud ein gwaih I safon uchaf, ae yn ddiogel ac i safon lechyd y Cyhoedd Cymru a Llywodreath Cymru.

Fydd bob person yn ein gofal yn cael asesiad risg Covid-19. Yw cyfrodi asesiad risg mesurau rheoli. Yw helpu i cadw lleihau risg. Fydd Seashells yn parhau i fabwysiadu yr hawl i fynd atynt i gwneud yn siwr bod bob person syn derbyn gofal y cymuned. Yn cael yr hawl efo bob dewis ac cgwybodeath uawn pam mae cenedlaethol neu leol yn cyfyngiad er muyn Covid19 neu rhiwfath o haint rholaeth pryderon.

Mae ein gweithuir cyfan wedi cael Hyfforddiant yw defryddio y guisg personol amddiffyniad offer (PPE) sicrhau yr gofal yn unol efo Llywodraeth Cymru gofy niad er muryn lliniaru risg o Gael haint. Fydd gweithwyr yn cael cynhwsfawr arweinaid a risg asesiad an haint rhrolaeth, Bydd ei gweithywr yn dilyn cymdeithasol ymbellhau canllawiau bethbynnag ymarfenol syn bosib. Mae cwmi Seashells yn ymrymo yw fo dyn ymatebol yw gweithredoedd a newid mewn angen ac bod gwasanaeth yn cael ei ddanfon yn ystod y cyfnod anodd a heiol hyn.

Canmoliaethau

Bydd y rheolwyr bob amser yn ceisio trosglwyddo adborth cadarnhaol i staff. Caiff canmoliaethau eu derbyn fel arwydd o werthfawrogiad, anogaeth ac ysgogiad.

Mae Seashells Cyf yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu'r gwasanaeth o'r safon uchaf posibl. Credwn fod yna le i wella bob amser, beth bynnag fo safon y gwasanaethau presennol. Rydym hefyd o'r farn mai hawl diamod defnyddwyr ein gwasanaeth yw derbyn y gofal o'r safon uchaf, sy'n golygu y sicrheir y canlyniadau posibl. Nod parhaus Seashells Cyf yw darparu gwasanaeth proffesiynol ac effeithlon i ddiwallu holl anghenion y rheini sy'n defnyddio'n gwasanaeth. Nod hirdymor Seashells Cyf yw sicrhau'r boddhad mwyaf i unigolion, perthnasau a gofalwyr. Gelwir hyn yn sicrhau ansawdd ac mae'n cynnwys:

- Mae'r Rheolwr Gofal / Goruchwyliwr yn ymweld â chartref unigolyn bob tri mis i glywed ei farn a chynnal adolygiad gofal (yn dibynnu ar gyfyngiadau a risgiau covid, os na ellir ymweld, cynhelir adolygiadau dros y ffôn).
- Cynnal goruchwyliadau/arfarnau/cyfarfodydd staff
- Anfonir holiadur sicrhau ansawdd bob blwyddyn i holl ddefnyddwyr ein gwasanaeth, i'w gwblhau a'i ddychwelyd i'n swyddfa. Rydym yn cynnwys amlen barod â stamp, er hwylustod
- Byddwn yn archwilio'r holl ffeiliau, amserlenni a chofnodion eraill yn ofalus
- Cael adborth gan bobl broffesiynol eraill
- Cael adborth allanol gan arolygwyr ein corff rheoleiddio AGC
- Cael adborth hyfforddiant
- Cael adborth gan Awdurdodau Lleol
- Cynnal Arolygon / ymweliadau cartref gan yr Unigolyn Cyfrifol
- Gwiriadau ar hap ym mhob maes

Cwynion a chanmoliaethau

Mae Seashells Cyf o'r farn, os bydd pobl yn cwyno/gwneud awgrymiadau ynglŷn â'r modd y mae ein gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion gofal, ei fod yn dynodi diogelwch yn eu hamgylchedd a'u bod yn gwybod i sicrwydd y bydd y mater yn cael ei drin yn y modd priodol, rhag ofn gwrthgyhuddiad. Am yr union resymau hyn yr ydym yn ystyried y cwynion/awgrymiadau mewn modd cadarnhaol ac adeiladol. Os yw'n well gan yr achwynwr bod rhywun arall yn y sefydliad yn ymdrin â'r mater, neu os ydynt o'r farn na chymerwyd y sylw a wnaed ganddynt o ddifri, neu nas gweithredwyd arno, gallant ofyn am gael eu cysylltu â'r Unigolyn Cyfrifol.

Bydd pob cwyn yn cael ei chydnabod yn ysgrifenedig ymhen 7 diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn. Caiff achwynwyr a staff sy'n ymdrin â chwynion yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr ymchwiliad ac am unrhyw weithdrefnau, yn unol â sicrhau cyfrinachedd arferol ein staff. Dylid dod i gasgliad ymhen 14 diwrnod.

Os oes rhywun o'r farn nad yw Seashells wedi delio â chŵyn yn foddhaol, mae ganddo'r hawl i anfon y gŵyn at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), sy'n rheoleiddio'n gwasanaeth. Gellir cysylltu â nhw gan ddefnyddio'r manylion isod:

AGC Rhanbarth Gogledd Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

Rhif ffôn: 0300 7900 126
Ffacs: 0300 062 5030
E-bost: CIW@gov.wales
Gwefan: careinspectorate.wales

Llofnod: ----*PMCWhitehouse*---------- Rheolwraig Gweithredu

Dyddiad: ------3rd August 2022----------

* Mae croeso i chi ofyn am gopi o'r ddogfen hon, neu unrhyw un o ddogfennau Seashells, ar ffurfiau eraill (yn Saesneg, mewn ffont mwy, mewn Braille ac ati).